Person Perthnasol	Ymchwiliad	Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu	Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**CS1411** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) i anfon gohebiaeth ato yn Gymraeg. Derbyniodd yr achwynydd lythyr yn Saesneg gan Marston Recovery, cwmni casglu dyledion ar ran y Cyngor.	23/09/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 2 a 5. Mae Safon 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, wrth gysylltu ag unigolyn am y tro cyntaf, ofyn a yw'r unigolyn yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, cadw cofnod o'r dymuniad hwnnw a gohebu gyda'r unigolyn hwnnw yn Gymraeg o hynny ymlaen. Yn yr achos yma, mynegodd yr achwynydd anfodlonrwydd nad oedd yr ohebiaeth wedi'i darparu yn Gymraeg, na bod dewis iaith wedi'i gynnig iddo. Nododd y Cyngor nad oedd ganddo gofnod o unrhyw gais gan yr achwynydd i dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, ni ddarparwyd tystiolaeth fod y Cyngor, na'r darparwr ar ei ran, wedi gofyn i'r achwynydd, wrth gysylltu ag ef am y tro cyntaf, a oedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, nac wedi cadw cofnod o ddewis iaith. O ganlyniad, anfonwyd yr ohebiaeth at yr achwynydd yn uniaith Saesneg. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 2. Mae Safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, os nad yw'n gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth, hyd nes bod y corff yn gwybod nad yw'r unigolyn yn dymuno hynny. Nododd y Cyngor bod yr ohebiaeth yn cynnwys y neges "Hapus i Gyfieithu" i roi'r opsiwn i'r cwsmer ofyn am gyfieithiad. Fodd bynnag, ni ddarparwyd eglurhad o'r rhesymeg dros gyhoeddi'r llythyr rhybudd yn uniaith Saesneg tra bod hysbysiadau gorfodi yn ddwyieithog. Er bod y Cyngor wedi nodi bod gwasanaethau Cymraeg ar gael drwy'r trydydd

parti, gan gynnwys swyddogion Cymraeg eu hiaith, nid yw argaeledd gwasanaeth yn ddigon i fodloni gofynion Safon 5. Yn absenoldeb gwybodaeth am ddewis iaith yr unigolyn, dylai'r ohebiaeth gychwynnol fod wedi'i darparu yn Gymraeg (neu'n ddwyieithog).
Yn yr achos hwn, derbyniodd yr achwynydd ohebiaeth yn uniaith Saesneg gyda'r opsiwn o ofyn am gyfieithiad. Nid yw cynnig cyfieithiad ar ôl anfon gohebiaeth gychwynnol yn Saesneg yn cydymffurfio â gofynion Safon 5.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

Safon 2: Methiant
Safon 5: Methiant

Gweithredu Pellach
Safon 2 a 5 Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sicrhau bod Marsden Recovery yn

- darparu POB gohebiaeth yn Gymraeg,
- gwirio dewis iaith unigolyn, a chadw cofnod o'r dewis iaith, cyn gohebu.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gymryd camau i sicrhau bod pob darparwr trydydd parti yn cydymffurfio gyda'r holl safonau sy'n berthnasol iddynt.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Cyngor Sir Penfro	**CS1412** Cafodd yr ymchwiliad ei gynnal yn dilyn cwyn bod Ymgynghoriad Cyllideb 2026–2027 Cyngor Sir Penfro heb roi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau'r mesurau arbed ar y Gymraeg. Bu'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau 91-93, sy'n gosod dyletswydd i ystyried effeithiau polisïau ar y Gymraeg ac i geisio barn y cyhoedd ynghylch y rheini.	27/07/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 91-93. Er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â safonau 91-93, rhaid cyflawni dau ofyniad penodol: yn gyntaf, mae'n rhaid i'r Cyngor "ystyried" effeithiau posibl y cynnig ar y Gymraeg, ac yn ail, mae'n rhaid "ceisio barn" ynghylch unrhyw effeithiau o'r fath. O ran y ddyletswydd i ystyried effeithiau posibl y polisïau ar y Gymraeg, mae'r Cyngor yn datgan iddo ddefnyddio Asesiad Effaith Integredig fel prif fecanwaith i wneud hyn. Mae'r asesiad yn cydnabod rhai effeithiau posibl ar unigolion. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad yn mynd gam ymhellach i ystyried effaith ehangach ar ddefnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, petai'n cymryd mwy o amser i gael gwasanaeth yn Gymraeg mae'n bosib y gallai hynny gael effaith ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Yn yr un modd, er bod effaith ar ddysgwyr Cymraeg yn cael ei nodi, mae'r ffocws ar gost i unigolion yn hytrach nag ar yr effaith bosibl ar nifer y dysgwyr neu ar gynaliadwyedd y Gymraeg yn y tymor hwy. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Cyngor wedi bodloni elfen "ceisio barn" safonau 91-93, gan ei fod wedi cynnwys cwestiynau priodol yn y broses ymgynghori sy'n galluogi'r cyhoedd i fynegi barn ar effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod yr "ystyriaeth" o effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg wedi digwydd ar lefel gymharol sylfaenol ac felly cydymffurfiaeth rhannol yn unig sydd yma. Nid yw'n ystyried yn ddigon manwl yr effaith ehangach ar ddefnydd y Gymraeg na'r goblygiadau tymor hwy, nac yn archwilio'n ddigonol ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol neu wella effeithiau cadarnhaol**.**

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safonau 91-93.

Safon 91-93: Methiant

Gweithredu Pellach

Safonau 91-93 Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ystyriaeth gydwybodol o effeithiau posibl unrhyw gynnig polisi ar y Gymraeg yn cael ei chynnal cyn cyhoeddi unrhyw ddogfen ymgynghori. Ni ddylid gohirio'r ystyriaeth hon tan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Rhaid i'r ystyriaeth hon gael ei dogfennu'n glir a thryloyw ym mhob dogfen ymgynghori drwy gynnwys adran benodol sy'n:

- nodi asesiad y Cyngor ei hun o effeithiau posibl y cynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg,
- trafod sut y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg, gan amlinellu'r effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, nodi sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r rhai andwyol.

2. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau ymgynghori mewnol er mwyn:

- adlewyrchu'n eglur y gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol i "ystyried" effeithiau ar y Gymraeg a'r ddyletswydd i "geisio barn" ynghylch yr effeithiau hynny a

			• sicrhau bod dogfennau ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth a dadansoddiad digonol i alluogi'r cyhoedd i ymateb yn wybodus a deallus. **Amserlen:** O fewn 7 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
Cyngor Sir Penfro	**CS1351** Cafodd yr ymchwiliad hwn ei agor yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd Cyngor Sir Penfro wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg wrth ymgynghori ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch premiymau'r dreth gyngor. Roedd y gŵyn yn canolbwyntio ar ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn 2024 a 2025, yn ogystal â'r penderfyniad a wnaed ym mis Hydref 2025.	27/07/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 91-93 ac 88-90. Er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â safonau 91–93, rhaid cyflawni dau ofyniad penodol: yn gyntaf, mae'n rhaid i'r Cyngor "ystyried" effeithiau posibl y cynnig ar y Gymraeg, ac yn ail, mae'n rhaid "ceisio barn" ynghylch unrhyw effeithiau o'r fath. Mae'r gofyniad i ystyried yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl cyn cynnal yr ymgynghoriad, ac yn dogfennu'r ystyriaeth honno yn y dogfennau ymgynghori er mwyn galluogi'r cyhoedd i ymateb ar sail gwybodaeth briodol. Nid yw'r dogfennau ymgynghori a ddarparwyd ar gyfer ymgynghoriadau 2024 a 2025 yn dangos bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol o'r fath i'r effeithiau posibl ar y Gymraeg. Er bod y Cyngor wedi: • cyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog, • cynnwys cwestiynau i gasglu barn y cyhoedd am y Gymraeg, ac • dadansoddi ac adrodd ar ymatebion a dderbyniwyd, nid yw'r camau hyn, ynddynt eu hunain, yn bodloni'r gofyniad i ystyried effeithiau posibl y cynigion. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â Safon 91-93. Mae Safonau 88–90 yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar: (a) gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i ystyried sut y gellid llunio neu weithredu'r polisi mewn ffordd a fyddai'n sicrhau effeithiau cadarnhaol, neu fwy cadarnhaol, ar y Gymraeg, ac i osgoi neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Er bod yr Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am y Gymraeg, megis data ar nifer yr ail gartrefi mewn ardaloedd penodol, nid oedd yn dangos ymdrech gydwybodol i werthuso sut y gallai'r penderfyniad polisi effeithio ar y Gymraeg. Nid oedd chwaith unrhyw ystyriaeth ystyrlon o'r modd y gellid addasu'r polisi i sicrhau effeithiau cadarnhaol neu i leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel sefydliad, gymryd cyfrifoldeb am adnabod ac ystyried effeithiau posibl ar y Gymraeg. Nid yw'n dderbyniol dibynnu ar ymatebion ymgynghori yn unig i gyflawni'r ddyletswydd hon. Disgwylir i'r Cyngor fod wedi nodi effeithiau posibl cyn cynnal yr ymgynghoriad, er mwyn galluogi ymatebion gwybodus gan y cyhoedd.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safonau 88-90.

Gweithredu Pellach

Safonau 91-93 Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ystyriaeth gydwybodol o effeithiau posibl unrhyw gynnig polisi ar y Gymraeg yn cael ei chynnal cyn cyhoeddi unrhyw ddogfen ymgynghori. Ni ddylid gohirio'r ystyriaeth hon tan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

   Rhaid i'r ystyriaeth hon gael ei dogfennu'n glir a thryloyw ym mhob dogfen ymgynghori drwy gynnwys adran benodol sy'n:

- nodi asesiad y Cyngor ei hun o effeithiau posibl y cynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg,
- trafod sut y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg, gan amlinellu'r effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, nodi sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r rhai andwyol.

2. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau ymgynghori mewnol er mwyn:
   - adlewyrchu'n eglur y gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd statudol i "ystyried" effeithiau ar y Gymraeg a'r ddyletswydd i "geisio barn" ynghylch yr effeithiau hynny a
   - sicrhau bod dogfennau ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth a dadansoddiad digonol i alluogi'r cyhoedd i ymateb yn wybodus a deallus.

Safonau 88-90 Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau gwneud penderfyniadau polisi er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad polisi yn cael ei ategu gan dystiolaeth glir bod y Cyngor wedi:
   - adnabod effeithiau posib y penderfyniad ar y Gymraeg
   - ystyried yr effeithiau hynny'n gydwybodol cyn gwneud y penderfyniad.

Rhaid i'r dystiolaeth hon fod yn rhan annatod o'r broses benderfynu ac ar gael fel rhan o gofnodion y Cyngor.

2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod papurau penderfynu a gyflwynir i aelodau etholedig yn cynnwys:
   - dadansoddiad clir o'r effeithiau posibl ar y Gymraeg; a

			• disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd gan y Cyngor i lunio'r polisi mewn ffordd sy'n: • cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu • lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl ar y Gymraeg. **Amserlen**: O fewn 7 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
Gweinidogion Cymru	**CS1319** Cynhaliwyd yr ymchwiliad i ystyried dau fater: (1) a oedd penderfyniadau ailstrwythuro mewnol gan Weinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi; ac (2) a oedd asesiad o ofynion iaith a hysbyseb swydd rôl y Cyfarwyddwr Addysg yn cydymffurfio â Safonau 136 a 136A.	30/06/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 88, 89, 90, 136 a 136A. Roedd y penderfyniadau dan sylw yn ymwneud â threfniadau strategol a strwythurau mewnol Llywodraeth Cymru, ac felly'n disgyn o fewn y diffiniad statudol o benderfyniadau polisi. Mae'r ffaith eu bod yn cael eu gwneud ar lefel strategol, yn hytrach nag ar lefel weithredol, yn atgyfnerthu'r casgliad hwn. Nid oes unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, boed ar ffurf Asesiad Effaith ar y Gymraeg, cofnod penderfyniad, na nodiadau trafod, sy'n dangos bod y Gymraeg wedi'i hystyried yn gydwybodol wrth wneud y penderfyniadau ailstrwythuro dan sylw. Er bod Gweinidogion Cymru wedi nodi bod y newidiadau yn strategol ac yn gadarnhaol, ac nad oeddent o'r farn bod unrhyw effeithiau negyddol wedi deillio ohonynt, nid yw datganiadau o'r fath, ar eu pen eu hunain, yn cyfateb i ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg at ddibenion Safon 88. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safon 88. Mae Safon 89 yn gosod gofyniad ar sefydliad i ystyried sut y gellid llunio neu newid polisi fel y byddai'r penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd

i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Gweinidogion Cymru wedi ystyried sut y gellid llunio neu addasu'r penderfyniadau ailstrwythuro dan sylw er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth fod y camau hyn wedi eu cymryd yng nghyd-destun y penderfyniadau dan sylw.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safon 89.

Mae Safon 90 yn gosod gofyniad pellach ar sefydliad i ystyried sut y gellid atal neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar y Gymraeg.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Gweinidogion Cymru wedi ystyried opsiynau amgen i liniaru neu atal effeithiau andwyol posibl ar y Gymraeg yn sgil y penderfyniadau ailstrwythuro dan sylw. Nid oes unrhyw gofnod o ystyriaeth o fesurau lliniaru, o addasiadau posibl i'r trefniadau, nac o unrhyw drafodaeth ffurfiol ynghylch sut y gellid lleihau risgiau i'r Gymraeg.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safon 90.

Mae Safon 136 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg pan gaiff swydd ei chreu o'r newydd neu pan ddaw'n wag, a chategoreiddio'r swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys:

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
- nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod Gweinidogion Cymru wedi asesu'r angen am sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu'r swydd, wedi ystyried

ffactorau perthnasol, a bod cofnod priodol wedi'i gadw o'r asesiad a'r penderfyniad. Mae'r penderfyniad wedi'i alinio'n glir ag un neu ragor o'r pedwar categori a nodir yn Safon 136.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â gofynion Safon 136.

Mae Safon 136A yn gosod dyletswydd ar gorff i bennu a nodi'n glir gategori iaith swydd pan fo'r swydd wedi'i chategoreiddio o dan Safon 136 fel un lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, neu'n rhai y mae angen eu dysgu. Mae'r safon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swydd gael ei hysbysebu yn Gymraeg.

Daeth asesiad ieithyddol Gweinidogion Cymru i'r casgliad fod y swydd yn un lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, neu fel arall fod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg er mwyn cyflawni gofynion y rôl. O ganlyniad, nid oedd y disgrifiad swydd, fel y'i hysbysebwyd, yn adlewyrchu'n gywir y categori iaith a bennwyd gan y corff ei hun. Cadarnhawyd nad oedd yr hysbyseb wedi'i diwygio ar ôl canfod yr anghysondeb, ac felly bod gwybodaeth anghyson am ofynion iaith y swydd wedi parhau ar gael i ymgeiswyr hyd at gau'r cyfnod hysbysebu.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â gofynion Safon 136A.

Gweithredu Pellach

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i Weinidogion Cymru, sefydlu neu ddiweddaru (fel y bo'n berthnasol) a gweithredu gweithdrefn ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth

â'r safonau llunio polisi wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud ag ailstrwythuro mewnol neu newidiadau strwythurol eraill.

Dylai'r weithdrefn hon nodi'n glir:

- pwy sy'n gyfrifol am gwblhau unrhyw asesiad perthnasol, a
- sut y caiff yr ystyriaethau o dan y safonau eu cofnodi a'u cadw.

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu hyfforddiant penodol i reolwyr a swyddogion a all fod yn gyfrifol am ailstrwythuro neu wneud penderfyniadau polisi, gan gynnwys hyfforddiant ar:

    - ofynion y safonau llunio polisi,
    - pwysigrwydd casglu a chadw cofnodion priodol, a
    - sut i gwblhau Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn gywir ac yn gyson.

3. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu eu trefniadau presennol ar gyfer cofnodi a chylchredeg gwybodaeth am ofynion iaith swyddi, gan gynnwys y system recriwtio Cais neu unrhyw system newydd a gaiff ei defnyddio yn ei lle.

    Dylai'r adolygiad sicrhau bod modd nodi'n glir ac yn gyson bob un o'r pedwar categori a ganiateir o dan Safon 136.

4. Rhaid i Weinidogion Cymru roi ar waith wiriad cysondeb gorfodol cyn hysbysebu unrhyw swydd, er mwyn sicrhau bod gofynion iaith y swydd yn gyson ar draws:

    - yr hysbyseb swydd,
    - y disgrifiad swydd,
    - y fanyleb person, ac
    - unrhyw wybodaeth a fewnbynnir i system recriwtio ar-lein.

			5. Rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'r ymrwymiad a nodwyd yn eu hymateb drwy ychwanegu nodyn clir i'r ffurflen asesu sgiliau, yn nodi: • os pennir y categori "i'w ddysgu yn y swydd", bod yn rhaid nodi'r lefelau sgiliau disgwyliedig, a sut y caiff y gofyniad hwnnw ei gyfathrebu'n glir ac yn gyson ym mhob dogfen recriwtio berthnasol. 6. Rhaid i'r corff ddarparu hyfforddiant priodol i aelodau'r tîm recriwtio sy'n gyfrifol am uwchlwytho gwybodaeth i systemau recriwtio, er mwyn sicrhau: • eu bod yn ymwybodol o ofynion Safon 136A, a • eu bod yn deall pwysigrwydd cysondeb llawn rhwng dogfennau a systemau recriwtio ar-lein. **Amserlen**: Erbyn 30 Medi 2026
Cyngor Chwaraeon Cymru	**CS1365** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch amheuaeth nad oedd mynediad at wersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhlas Menai. Nodwyd bod angen cymryd camau ychwanegol i wneud cais am wers Gymraeg, gan nad yw'r opsiwn ar gael fel rhan naturiol o'r broses archebu ar-lein. Codwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd a chysondeb y Gymraeg ar y wefan.	23/07/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 48 a safon 80. Mae safon 48 yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhannau o'r wefan trydydd parti ble gellir archebu gwersi nofio ym Mhlas Menai, yn cynnwys termau Saesneg yn unig neu gynnwys gwallau ieithyddol. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r sefydliad wedi sicrhau bod y tudalennau Cymraeg yn gweithredu'n llawn, fel sy'n ofynnol o dan y safon. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Chwaraeon Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 48.

Mae cynnig gwersi nofio yn ddwyieithog yn cydymffurfio â safon 80. Er nad yw'r safonau'n mynnu bod cyrsiau Cymraeg yn cael eu cynnal ar yr un diwrnodau, amseroedd nac mor aml â chyrsiau Saesneg, disgwylir i'r ddarpariaeth Gymraeg fod yr un mor hygyrch a chyfleus. Nid yw'n dderbyniol cynnig cwrs yn Gymraeg ar rai lefelau yn unig; rhaid ei gynnig ar bob lefel lle mae'r cwrs ar gael yn Saesneg. Ym Mhlas Menai, nid oes modd nodi dewis am wersi Cymraeg drwy'r system archebu ar-lein, gan olygu bod angen cam ychwanegol i wneud cais. Felly, nid yw'r trefniadau presennol yn cynrychioli 'cynnig' ymarferol o gwrs Cymraeg.

Mae'r tabl gwersi nofio a ddarparwyd yn dangos nad oes darpariaeth Gymraeg na dwyieithog ar gael ar gyfer pob lefel. Er bod sesiynau dwyieithog ar gael ar gyfer Tonnau 1 i 5, dim ond gwersi Saesneg sydd ar gael ar gyfer Tonnau 6 a 7. Er mwyn cydymffurfio â safon 80, ni ystyrir bod 'cynnig' cwrs yn Gymraeg ar gael ar gyfer y lefelau hynny, gan na ellir derbyn y cwrs yn Gymraeg hyd yn oed pe bai unigolyn yn datgan ei ddymuniad i wneud hynny.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Chwaraeon Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 80.

Safon 48 – Methiant
Safon 80 – Methiant

Gweithredu Pellach

Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r sefydliad gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau gwefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safon 48. Rhaid i'r adolygiad hwn ymdrin, yn benodol, â'r canlynol:

- sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan, gan gynnwys unrhyw wefan trydydd parti, ar gael yn Gymraeg;
- sicrhau bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn ac yn rhydd o wallau ieithyddol;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn unrhyw elfen o'r wefan neu'r broses archebu.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 80: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rhaid i'r sefydliad baratoi a chyflwyno cynllun gweithredu i'r Comisiynydd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Safon 80 wrth gynnig a darparu gwersi nofio.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys:

- camau clir i sicrhau bod gwersi nofio ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel lle cynigir gwersi cyfatebol yn Saesneg;
- camau i sicrhau bod gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg yr un mor hygyrch a chyfleus â gwersi drwy gyfrwng y Saesneg, gan sicrhau nad yw mynychwyr unrhyw wers Gymraeg o dan anfantais;
- camau penodol i sicrhau bod modd i unigolion ddewis darpariaeth Gymraeg fel rhan o'r broses archebu arferol, heb fod angen cymryd camau ychwanegol nac wynebu rhwystrau ychwanegol o gymharu â'r ddarpariaeth Saesneg.

Dylai'r cynllun hefyd gynnwys:

				• amserlen glir ar gyfer gweithredu'r camau uchod, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 80 o fewn 12 mis i ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu; • gwybodaeth ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r camau hynny; • sut y bydd y sefydliad yn monitro cynnydd ac yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerir. **Amserlen:** Rhaid i'r sefydliad gyflwyno'r cynllun gweithredu drafft i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	**CS1436** Cafodd yr ymchwiliad ei gynnal yn dilyn gwybodaeth a dderbyniwyd a gododd amheuaeth nad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal cofnodion cyfredol o sgiliau Cymraeg ei staff, fel sy'n ofynnol o dan Safon 96. Mae'r mater hwn yn dilyn ymchwiliad blaenorol (CS1063) yn	23/07/2026		**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 96 a cham gorfodi 1 ymchwiliad CS1063. Mae Safon 96 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau asesu sgiliau Cymraeg eu cyflogeion, gan olygu bod angen trefniadau effeithiol, cynhwysfawr a chyson i sicrhau bod sgiliau'r gweithlu yn cael eu hasesu a'u cofnodi'n amserol. Er bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r prosesau, mae lefel y cofrestru hyd at fis Mai 2026 yn dangos nad yw'r gofyniad hwn wedi'i fodloni'n llawn. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 96. Nod y camau gorfodi yn achos CS1063 oedd sicrhau bod y Bwrdd Iechyd wedi casglu a bod ganddo gofnod o sgiliau Cymraeg 85% o'i gyflogeion erbyn 31 Mawrth 2024, ac wedi gweithredu ymhellach erbyn 31 Hydref 2024 er mwyn cael cofnod llawn. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dangos nad oedd y targed o gofnodi sgiliau Cymraeg 85% o'r gweithlu wedi'i gyflawni erbyn 31 Mawrth 2024, nac erbyn 31 Hydref 2024 ychwaith. Er bod cynnydd

	2023, lle canfuwyd methiant a gosodwyd camau gorfodi i adfer cydymffurfiaeth erbyn diwedd 2024. Mae'r dystiolaeth ddiweddar yn awgrymu nad yw'r camau hynny wedi'u gweithredu'n llawn.	wedi'i wneud dros amser, gyda lefel y cofrestru'n cyrraedd 60.98% erbyn Rhagfyr 2025 ac wedi cynyddu ymhellach i 74.44% erbyn 19 Mai 2026, mae'r ffigurau hyn yn parhau'n sylweddol is na'r lefel sy'n ofynnol o dan y camau gorfodi, o fewn yr amserlen a nodwyd ar eu cyfer. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 1 ymchwiliad CS1063. Safon 96 – Methiant Cam gorfodi CS1063 - Methiant **Gweithredu Pellach** **Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** 1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gynnal trefniadau ar gyfer asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg ei gyflogeion, a rhaid i'r trefniadau hynny sicrhau: • bod sgiliau Cymraeg o leiaf 85% o'i gyflogeion wedi'u cofrestru erbyn 31 Gorffennaf 2026; • bod sgiliau Cymraeg dros 95% o'i gyflogeion wedi'u cofrestru erbyn 31 Rhagfyr 2026. 2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi trefniadau gorfodol ar waith sy'n: • ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogai gofnodi eu sgiliau Cymraeg; • sicrhau bod y gofyniad yn rhan o brosesau penodi, ymsefydlu ac adolygu perfformiad.

			3. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd anfon cyfathrebiad ffurfiol at bob aelod o staff: • yn nodi'r gofyniad statudol; • yn egluro'r amserlenni a'r targedau. 4. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â rhwystrau systemig drwy: • ddatrys neu liniaru'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r Cofnod Staff Electronig (ESR); • sicrhau bod dulliau amgen yn weithredol ac effeithiol i staff heb fynediad digidol. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4. **Amserlen:** Cam 1 - Diweddariadau misol hyd Ionawr 2027. Camau 2 – 4 – 2 fis o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol.
Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru	**CS1358** Derbyniwyd cwyn gan unigolyn a gysylltodd â Heddlu De Cymru yn Gymraeg ond a brofodd sawl achos lle na ddarparwyd	03/07/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 1, 2, 21, 26, 26B, 52, 62 a 62A. Er mwyn cydymffurfio gyda safon 1, mae angen i sefydliad ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg gan unigolyn yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi nodi nad oes angen ateb yn Gymraeg. Yn yr achos hwn fe gwblhaodd yr achwynydd ffurflen ar wefan yr heddlu yn Gymraeg. Ar yr un dyddiad, fe anfonodd yr achwynydd e-bost yn Gymraeg yn cyfleu'r un wybodaeth at swp101@south-wales.police.uk. Derbyniodd yr achwynydd e-bost

gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.	Saesneg yn unig yn cydnabod derbyn ei ffurflen gan swp101@south-wales.police.uk.
Roedd y rhain yn cynnwys derbyn ymatebion yn Saesneg i ohebiaeth Gymraeg, galwadau ffôn yn Saesneg heb gynnig y Gymraeg, methiant i gynnal cyfweliad yn Gymraeg neu i drefnu cyfieithydd, diffyg eglurder ar y wefan ynghylch argaeledd tudalen gyfatebol yn Gymraeg, a diffyg gwasanaeth derbynfa Cymraeg.	Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1. Er mwyn cydymffurfio gyda safon 2, mae angen i'r sefydliad ofyn wrth unigolyn a fyddai'n dymuno cael gohebiaeth Gymraeg oddi wrthynt. Mae angen gwneud hyn y tro cyntaf mae'r corff yn gohebu gyda'r unigolyn. Os yw'r unigolyn yn ymateb i ddweud mai ei ddymuniad yw cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff, rhaid i'r corff gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, gan ohebu â'r unigolyn hwnnw ac anfon unrhyw ohebiaeth at yr unigolyn hwnnw o hynny ymlaen yn Gymraeg. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 2. Mae Safon 21 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i unigolyn, wrth gysylltu ag ef am y tro cyntaf dros y ffôn, a yw'n dymuno cael galwadau yn Gymraeg. Os yw'r unigolyn yn nodi hynny, rhaid cynnal galwadau yn Gymraeg ar y mater hwnnw yn y dyfodol. Yr unig eithriad yw pan fo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth penodol ac nad oes aelod o staff Cymraeg ar gael. Yn yr achos hwn, cysylltodd swyddog heddlu â'r achwynydd ar 10 Awst 2025 yn Saesneg ac ni ofynnwyd am ei ddewis iaith, er iddo ofyn am gyfarfod yn Gymraeg. Cafwyd galwad arall yn Saesneg ar yr un mater ar 9 Hydref 2025. Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 21.

Mae Safon 26B yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i unigolyn a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad ac, os oes angen, ei hysbysu y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael. Disgwylir hefyd i'r corff ganiatáu digon o amser i drefnu unrhyw drefniadau angenrheidiol, gan gynnwys cyfieithydd. Os yw unigolyn yn gofyn am ddefnyddio'r Gymraeg, rhaid trefnu cyfieithu os na ellir cynnal y cyfweliad yn Gymraeg yn uniongyrchol. Yn yr achos hwn, gofynnodd yr achwynydd ar 10 Awst 2025 i gynnal ei gyfweliad yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr heddlu wedi cynnig hyn yn rhagweithiol nac wedi trefnu cyfieithydd ymlaen llaw, gan ofyn yn ddiweddarach a ellid cynnal y cyfweliad yn Saesneg yn lle hynny gan nad oedd cyfieithydd wedi ei drefnu.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 26 a safon 26B.

Mae Safon 52 yn nodi bod rhaid i bob tudalen Saesneg ar wefan nodi'n glir fod tudalen gyfatebol ar gael yn Gymraeg ac yn darparu dolen uniongyrchol ati. Yn yr achos hwn, er bod ffurflen Gymraeg ar gael, defnyddiodd yr achwynydd y ffurflen Saesneg a'i llenwi yn Gymraeg. Roedd dewis iaith glir ar y dudalen sblash a'r hafan, ond nid ar y tudalennau dilynol. Er bod dolen i'r fersiwn Gymraeg ar waelod y tudalennau, nid oedd yn amlwg i ddefnyddwyr. O ganlyniad, ni chafodd argaeledd y Gymraeg ei arddangos yn ddigon clir.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

Er mwyn cydymffurfio gyda safon 62 a 62A, pan mae'r sefydliad yn trefnu ymweliad i berson o flaen llaw a fydd yn golygu y bydd y person hwnnw yn dod i dderbynfa'r corff, rhaid iddo ofyn i'r person a yw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg. Yn yr achos yma

roedd yr achwynydd wedi rhoi gwybod i'r sefydliad ei bod yn dymuno cael cyfweliad yn Gymraeg.
Pan gyrhaeddodd yr achwynydd orsaf yr heddlu ar 12 Awst 2025, fe siaradodd yn Gymraeg wrth y swyddog yn y dderbynfa ac fe gafodd ymateb yn Saesneg.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 62 a safon 62A.

Gweithredu Pellach

Safon 1 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r heddlu sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hadnabod fel gohebiaeth Gymraeg, a bod unrhyw ymateb (os oes angen ateb) yn cael ei ddarparu yn Gymraeg, oni bai bod yr unigolyn wedi nodi fel arall. Rhaid sicrhau nad yw systemau TG na chyfieithu awtomatig yn arwain at ymateb mewn iaith anghywir.
2. Rhaid i'r heddlu sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o ofynion safon yn enwedig wrth ddelio gyda gohebiaeth a dderbynnir drwy ffurflenni ar-lein ac e-bost.

Safon 2 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

3. Rhaid i'r heddlu sicrhau bod dewis iaith unigolyn yn cael ei ofyn a'i gofnodi'n gywir y tro cyntaf y byddant yn gohebu ag ef/hi pan fo Safon 2 yn berthnasol, a bod yr ohebiaeth ddilynol yn cael ei hanfon yn unol â'r dewis hwnnw.

Safon 21 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

4. Rhaid i'r heddlu sicrhau, pan fo swyddog yn cysylltu ag unigolyn dros y ffôn am y tro cyntaf mewn perthynas â mater newydd, eu bod yn gofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg, bod cofnod o'r dewis hwnnw'n cael ei gadw, a bod galwadau dilynol ar yr un mater yn cael eu cynnal yn unol â'r dewis hwnnw.

Safon 26 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

5. Rhaid i'r heddlu sicrhau, pan fo unigolyn yn cael ei wahodd neu ei orfodi i fynd i gyfweliad, bod yr unigolyn yn cael cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a'i hysbysu y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen.

Safon 26B - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

6. Rhaid i'r heddlu sicrhau, pan fo unigolyn wedi hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad, bod y cyfweliad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu fod gwasanaeth cyfieithu yn cael ei drefnu mewn pryd.

Safon 52 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

7. Rhaid i'r heddlu nodi'n glir ar bob tudalen Saesneg sy'n cyfateb i dudalen Gymraeg o'i wefan, bod y dudalen ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol, yn eglur a hygyrch at

			y dudalen Gymraeg, er mwyn galluogi defnyddwyr i newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhwydd. **Safon 62 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** 8. Pan drefnir ymweliad neu apwyntiad o flaen llaw a fydd yn golygu bydd unigolyn yn dod i'r dderbynfa, rhaid i'r sefydliad sicrhau bod yr unigolyn yn cael cynnig a yw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg o flaen llaw, oni bai bod y sefydliad eisoes yn gwybod beth yw dymuniad yr unigolyn. **Safon 62A - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** 9. Rhaid i'r sefydliad sicrhau bod gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg yn cael ei ddarparu pan fo ymweliad neu apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw ac mae'r unigolyn wedi hysbysu ei fod yn dymuno cael y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg, neu pan fo'r sefydliad eisoes yn gwybod mai dyna yw dymuniad yr unigolyn. **Amserlen**: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	**CS1376** Derbyniwyd cwyn yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â'i	03/08/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 91, 92 a 93. O dan Safon 91, pan fydd sefydliad cyhoeddus yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar: a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a

ddogfen ymgynghori ar newid polisi cludiant ysgol yn 2024. Honnodd yr achwynydd nad oedd y Cyngor wedi ystyried, nac wedi darparu tystiolaeth ei fod wedi ystyried, effaith y cynigion ar y Gymraeg fel rhan o'r ddogfen ymgynghori, ac felly ei fod wedi methu â chydymffurfio â Safonau 91–93 o safonau'r Gymraeg.

b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â Safon 91, rhaid bodloni dau ofyniad penodol:

- yn gyntaf, rhaid i'r sefydliad ystyried yr effeithiau posibl; ac
- yn ail, rhaid iddo geisio barn ynghylch yr effeithiau hynny.

Er bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiwn penodol yn y ffurflen ymateb i geisio barn am effaith y cynigion ar y Gymraeg, nid oedd ystyriaeth ddigonol o effeithiau'r opsiynau a gynigiwyd wedi'i chynnwys yn nogfennau ymgynghori'r Cyngor. Yn benodol, nid oedd unrhyw ddadansoddiad o'r effaith bosibl ar addysg Gymraeg, nac unrhyw wybodaeth berthnasol a fyddai wedi galluogi dealltwriaeth ystyrlon o'r goblygiadau posibl. Mae'r diffyg hwn o wybodaeth berthnasol yn cryfhau'r casgliad nad oedd ystyriaeth gydwybodol wedi'i rhoi i effaith y cynigion ar y Gymraeg. O ganlyniad i'r diffyg dadansoddiad hwn, nid oedd modd i'r cyhoedd ddeall na gwerthuso'n llawn effaith y cynigion ar y Gymraeg wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Yn unol â hynny, dyfarniad y Comisiynydd yw bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 91.

Mae safon 92 yn nodi, pan fydd sefydliad cyhoeddus yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar:

a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fel yn achos Safon 91, er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â Safon 92, rhaid bodloni dau ofyniad penodol:

- yn gyntaf, rhaid i'r corff ystyried yr effeithiau posibl; ac
- yn ail, rhaid iddo geisio barn ynghylch yr effeithiau hynny

Er bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb i geisio barn y cyhoedd am effaith y cynigion ar y Gymraeg, nid oedd ystyriaeth ddigonol o sut y gellid llunio neu addasu'r opsiynau o dan ystyriaeth, er mwyn sicrhau effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y Gymraeg, wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ei hun. O ganlyniad, dyfarnir fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 92.

Yn unol â Safon 93, pan fydd sefydliad cyhoeddus yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:

a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fel yn achos Safonau 91 a 92, er mwyn i ddogfen ymgynghori gydymffurfio â Safon 93, rhaid bodloni dau ofyniad penodol:

- yn gyntaf, rhaid i'r corff ystyried yr effeithiau posibl; ac
- yn ail, rhaid iddo geisio barn ynghylch yr effeithiau hynny.

Er bod y Cyngor wedi cynnwys cwestiwn penodol yn y ffurflen ymateb i geisio barn y cyhoedd am effaith y cynigion ar y Gymraeg, nid oedd ystyriaeth ddigonol o sut y gellid llunio neu addasu'r opsiynau o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg. O ganlyniad, dyfarnir y Comisiynydd nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon 93.

Gweithredu Pellach

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i'r Cyngor ddiweddaru'r ddogfen ganllaw fewnol ar lunio dogfennau ymgynghori a sicrhau ei fod yn cynnwys:
    - esboniad clir o ofynion Safonau 91–93;
    - gofyniad i gynnwys ystyriaeth gydwybodol o effeithiau pob cynnig polisi ar y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori ei hun;
    - canllaw penodol ar y math o ddata, dadansoddiad ac esboniadau gellir eu darparu er mwyn galluogi'r cyhoedd i ddeall effaith posib cynigion polisi.

Rhaid rhannu'r canllaw gyda holl staff.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad penderfynu.

2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant gorfodol i:
    - holl staff sy'n llunio polisïau;
    - staff sy'n llunio neu'n cyfrannu at ddogfennau ymgynghori;
    - staff sy'n gyfrifol am asesu effaith polisïau ar y Gymraeg.

    Dylai'r hyfforddiant gynnwys:
    - esboniad o ofynion Safonau 91–93;
    - sut i gynnal ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg;
    - gwersi i'w dysgu o'r ymgynghoriad dan sylw;
    - arferion da.

Amserlen: Rhaid cwblhau'r hyfforddiant o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad penderfynu.

			3. Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, rhaid i'r Cyngor gyflwyno i'r Comisiynydd: • copi o'r ddogfen ymgynghori gyntaf a gyhoeddir ar ôl cwblhau'r hyfforddiant; • tystiolaeth ei bod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau 91–93. **Amserlen**: O fewn 1 mis o ddyddiad agor unrhyw ymgynghoriad. 4. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio drwy: a) gyhoeddi datganiad cyhoeddus yn nodi bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol; a b) chyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn.
Cyngor Sir Gâr	**CS1393** Mae'r ymchwiliad yn ymwneud â chynnig Cyngor Sir Gâr i gau Ysgol Llansteffan, a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangain. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Derbyniwyd	02/07/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 88, 89 a 90. Mae safon 88 yn nodi, wrth wneud penderfyniad polisi, rhaid i'r Cyngor ystyried yr effeithiau y gall y penderfyniad eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ni wnaeth y Cyngor ystyried effaith negyddol bosibl y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned yn ei asesiad effaith gwreiddiol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â'r safon. Mae safon 89 yn nodi, wrth wneud penderfyniad polisi, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn codi pryderon ynghylch yr asesiad effaith ar y Gymraeg a oedd ynghlwm â'r cynnig.	Ni wnaeth y Cyngor ystyried hyn yn yr asesiad effaith gwreiddiol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â'r safon. Mae safon 90 yn nodi, wrth wneud penderfyniad polisi, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau negyddol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai negyddol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ni wnaeth y Cyngor ystyried hyn yn yr asesiad effaith gwreiddiol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â'r safon. Safon 88 – Methiant Safon 89 – Methiant Safon 90 – Methiant **Gweithredu Pellach** **Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** 1. Rhaid i'r Cyngor gryfhau'r 'Canllaw Cyfeirio Cyflym' er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth benodol ynghylch y safonau llunio polisi. Rhaid egluro gofynion y safonau canlynol: • Safon 88 – ystyried pa effeithiau y gall y cynnig eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. • Safon 89 – ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif ar y Gymraeg. • Safon 90 - ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau negyddol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai negyddol ar y Gymraeg.

			2. Rhaid i’r Canllaw hefyd gynnwys adran benodol ar ddiwygiadau i drefniadaeth ysgolion, gan bwysleisio’r angen i ystyried yr effaith ar y gymuned ynghyd â’r effaith ar y ddarpariaeth addysg. Rhaid i’r adran hon gynnwys rhai enghreifftiau o effeithiau posibl ar y gymuned y mae angen eu hystyried. 3. Rhaid i’r tabl yn y templed asesu effaith gael ei addasu i gynnwys colofnau sy’n gofyn am ystyriaeth o sut i gynyddu effeithiau positif, a sut i liniaru effeithiau negyddol, ar y Gymraeg. 4. Rhaid i’r Cyngor gynnal sesiwn hyfforddiant i aelodau staff sydd yn delio ag asesiadau effaith o fewn y maes ad-drefnu addysg, gan egluro cynnwys y canllaw uchod, a thynnu sylw at y methiannau i gydymffurfio yn yr achos hwn. **Amserlen**: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol. **Cyngor dan adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:** 1. Dylai’r Cyngor addasu’r ddogfen Siart Llif sydd wedi dod at ein sylw er mwyn cynnwys cymal sy’n nodi bod angen i'r effeithiau ar y Gymraeg gael eu hystyried yn unol â safonau’r Gymraeg o gychwyn y broses.
Gweinidogion Cymru (Cyllid Myfyrwyr Cymru)	**CS1371** Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ynglŷn â’r diffyg defnydd o’r Gymraeg mewn gohebiaeth gan Cyllid Myfyrwyr	06/07/2026	**Canfyddiadau’r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw’r ymchwiliad yw safon 2. Mae Safon 2 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gadw cofnod o ddymuniad A, gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen. Mae ein canfyddiadau ni yn dangos bod yr achwynydd wedi derbyn neges destun uniaith Saesneg, ac e-bost dwyieithog er iddo nodi ei fod eisiau derbyn gohebiaeth Gymraeg.

	Cymru drwy neges destun.		Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi methu â chydymffurfio â Safon 2. Safon 2 – Methiant **Gweithredu Pellach** **Gweithred Gosod camau gorfodi yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** 1. Rhaid i Weinidogion Cymru (Cyllid Myfyrwyr Cymru) ddarparu tystiolaeth i ddangos bod yr ohebiaeth nawr ar gael ym mhob achos yn Gymraeg. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y llythyr yng nghlwm i'r adroddiad hwn. **Amserlen**: O fewn mis o'r negeseuon testun yn cael eu gyrru yn Medi 2026. 2. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff Cyllid Myfyrwyr Cymru o Safon 2. **Amserlen**: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol y Comisiynydd.
Cyngor Sir Penfro	**CS1392** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch methiant y Cyngor i sicrhau cysondeb rhwng cynnwys y tudalennau	03/06/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 52. Ar ôl ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad rydym o'r farn bod Cyngor Sir Benfro wedi methu â chydymffurfio â safon 52. Sail y penderfyniad yw bod y Cyngor: i) wedi methu â sicrhau bod gwybodaeth a dolen at ddeisebau ar gael yn Gymraeg ac felly'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a

	Cymraeg a'r testun ar y tudalennau Saesneg ar wefan y Cyngor.		ii) ar adeg chwilio'r achwynydd, nad oedd tudalen 'cyfarfodydd a chofnodion' y wefan ar gael yn Gymraeg. Safon 52 – Methiant **Gweithredu Pellach** **Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** 1. Rhaid i Gyngor Sir Benfro lunio cyngor ymarferol yn egluro wrth staff sydd ynghlwm â'r tudalennau gwe, sut i gynllunio, gwirio a phrawfddarllen testun i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safon 52. **Amserlen:** O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	**CS1385** Nid oedd gwybodaeth am swyddi ar gael yn Gymraeg ar y wefan pan gyflwynodd yr achwynydd y gwyn. Yn ogystal â hyn, mae teitlau ar ddogfennau i'w lawrlwytho yn ymddangos yn Saesneg yn unig ar dudalennau	15/05/2026	**Canfyddiadau'r Comisiynydd** Mae safon 39 yn ei gwneud yn ofynnol i destun pob tudalen ar wefan y Bwrdd Iechyd fod ar gael yn Gymraeg, ac yn nodi na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma, nid oedd gwybodaeth am swyddi ar gael yn Gymraeg ar y wefan pan gyflwynodd yr achwynydd y gŵyn. Yn ogystal â hyn, mae teitlau ar ddogfennau i'w lawrlwytho yn ymddangos yn Saesneg yn unig ar dudalennau sy'n hysbysebu swyddi. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 39. Mae safon 107A yn golygu bod rhaid i swydd ddisgrifiadau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Bwrdd Iechyd fod yn Gymraeg. Yn yr achos yma, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi pob swydd ddisgrifiad yn Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 107A. Safon 39 – Methiant Safon 107A – Methiant

	sy'n hysbysebu swyddi.	**Gweithredu Pellach** Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 1. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wirio pob un o'r tudalennau Cymraeg sy'n hysbysebu swyddi er mwyn sicrhau bod y teitlau yn yr adran 'Dogfennau i'w lawrlwytho' yn Gymraeg. 2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd atgoffa staff sy'n gyfrifol am uwchlwytho'r dogfennau yma i'r wefan o'r gofyniad i sicrhau bod y teitlau yn ymddangos yn Gymraeg. **Amserlen**: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. **Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn llawn gyda safon 107A wrth gyhoeddi swydd ddisgrifiadau. Dylai'r cynllun gynnwys y wybodaeth ganlynol: - Disgrifiad o'r camau sydd yn mynd i gael eu cymryd i sicrhau bod swydd ddisgrifiadau yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys: o Sicrhau bod gwaith gwirio yn cael ei wneud o'r swydd ddisgrifiadau presennol er mwyn gweld faint ohonynt sydd angen eu cyfieithu. o Sicrhau bod gan y Tîm perthnasol yr adnoddau angenrheidiol i gyhoeddi pob swydd ddisgrifiad yn Gymraeg.

	○ Sicrhau bod staff perthnasol yn ymwybodol o'r gofyniad o dan y safon i gyhoeddi swydd ddisgrifiadau yn Gymraeg. - Manylion pwy fydd yn gyfrifol am gwblhau'r camau; - Amserlen ar gyfer cyflawni'r camau, gyda phob cam angen cael ei gyflawni o fewn 12 mis i ddyddiad cymeradwyo'r cynllun. - Rhaid i chi adrodd ar gynnydd cyflawni'r cynllun gweithredu 6 mis ar ôl dyddiad cymeradwyo'r cynllun. **Amserlen**: Rhaid i chi lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a'i rannu gyda'r Comisiynydd o fewn 3 mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad terfynol.